PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

# Y TYST

Sefydlwyd 1867 Cyfrol 157 Rhif 36 Medi 5, 2024 50c.

# Anrhydeddu dwy

Yn ystod mis Awst eleni fe dderbyniodd dwy wraig arbennig dystysgrifau oddi wrth Gymdeithas Eisteddfodau Cymru. Cyflwynwyd y rhain er mwyn cydnabod eu gwasanaeth i Eisteddfodau lleol yn eu milltir sgwâr. Ar ochr chwith y llun y mae Anne Lewis, ysgrifennydd a diacon eglwys Bryngwenith ger Castellnewydd Emlyn. Gwerthfawrogir yn fawr iawn ei gwaith dros flynyddoedd maith yn trefnu a chynorthwyo i gynnal Eisteddfod Gadeiriol Bryngwenith. Hefyd yn y llun y mae Mari Wyn, o Gastellnewydd Emlyn, yn derbyn anrhydedd am ei gwaith yn Eisteddfod Gadeiriol Castellnewydd Emlyn. Pob clod a gwerthfawrogiad i bawb sydd yn gwneud gwaith gwerthfawr fel hyn.

**Carys Ann**




# Gweddïwch yn ddi-baid

Wrth weld a chlywed y trychinebau sydd yn digwydd ledled y byd sylweddolwn yr angen sydd i weithredu ac i weddïo dros gyfiawnder a harmoni rhwng cenhedloedd a'i gilydd a charfannau sy'n gwrthdaro o fewn ein cymdeithas. Yn aml teimlwn yn gwbl ddiymadferth i'r anhrefn a'r a welwn ond un peth y gallwn ei wneud yw gweddïo. Mae'r Beibl yn ein hannog i weddïo yn gyson mewn ffydd fod Duw wrth y llyw. Ar hyn o bryd y mae nifer o elusennau Cristnogol yn ein gwahodd i weddïo yn benodol dros sefyllfaoedd.



## Cymorth Cristnogol

Ar eu gwefan y mae gan Gymorth Cristnogol ddyddiadur gweddi sy'n cynnwys awgrymiadau eiriol ar gyfer pob dydd o'r mis. Gellir hefyd derbyn e-bost gweddi gyson yn ein hannog ymhellach i gyflwyno'r dioddefwyr a'r tlawd ger bron gorsedd gras. Heddiw (21 Awst) mae'r dyddiadur yn tynnu ein sylw at Afghanistan ac am y datblygiadau fu ers i'r Taliban ailafael yn yr awenau yn 2021. Pwysleisiant y modd y mae hawliau a rhyddid menywod fwy neu lai wedi eu diddymu yno. Nid oes hawl ganddynt i gael swydd nac addysg. Cyfeiriant at brosiect ITL, Silc a Saffron

*parhad ar dudalen 2*

# Sul Sbesial

## Cyfundeb Ceredigion ar 29 Medi yng Ngwersyll yr Urdd, Llangrannog

**Cynnwys y rhaglen:**

***10.30 o'r gloch y bore:***

Gwasanaeth yng ngofal cadeirydd y cyfundeb, y Parchedig Guto Prys ap Gwynfor. Yn cyfeilio Mr Neville Evans.
*12.00 o'r gloch hyd 13.00 o'r gloch:*
Cinio yn y ffreutur (cig eidion wedi rhostio) £6.50 y pen i oedolion a phlant.

***13.00 o'r gloch hyd 14.00 o'r gloch:***

gwasanaeth y plant. Mi fydd plant yr Ysgolion Sul yn cyflwyno'r emynau, y weddi a'r darlleniad. Karen Owen fydd yn rhoddi cyflwyniad i'r plant. Mrs Rhian Evans yn cyfeilio yn y prynhawn. Dafydd Davies ar y drymiau. Mrs Catrin Evans yn arwain y canu.

***14.00 o'r gloch ymlaen:***

Y plant yn mynd allan yn eu grwpiau o ran oedran i fwynhau gweithgareddau y gwersyll. (bydd paned ar gael i'r rhai na fydd yn ymuno yn y gweithgareddau tu allan)

Mae croeso i bawb ymuno yn y ddau gyfarfod. Mi fydd angen archebu cinio ymlaen llaw. A fyddech mor garedig a rhoi gwybod i Mrs Karine Davies y nifer o'ch eglwys fydd angen cinio? Gan wneud hynny cyn gynted â phosibl, fan bellaf erbyn dydd Llun 23 Medi. Mae angen cael gwybod hefyd os oes unrhyw un ag anghenion arbennig fel alergedd neu nifer y llysieuwyr.

Os gwelwch yn dda cysyllter ā Karine Davies ar (01970) 210974 neu e-bost. karmags47@gmail.com

Edrychwn ymlaen at gwrdd gyda'n gilydd ar Sul 29 Medi.

Cofion cynnes, boed i fendith yr Hollalluog fod ar ein holl ymdrechion.

Yn gywir,
**Grŵp Trefnu y Sul Sbesial**

## Gweddïwch yn ddi-baid – *parhad*

sy'n cael ei weithredu yn ardal Herat er mwyn cynorthwyo menywod.

### Open Doors

Y mae elusen Open Doors yn ein hannog i gofio yn ein gweddïau am y Cristnogion sy'n cael eu herlid yn Jaranwala, Pacistan. Y llynedd bu ymosodiadau creulon gan eithafwyr crefyddol ar y gymuned Gristnogol. Dinistriwyd 19 o eglwysi ac 89 o gartrefi oedd yn eiddo i Gristnogion. Hefyd y mae angen gweddïau dros:

1. Bangladesh – lle mae ansefydlogrwydd cymdeithasol a gwleidyddol.
2. India - lle mae cyfreithiau yn erbyn tröedigaethau a newid ffydd fwy llym yn cael eu gweithredu yn Uttar Pradesh.

### Tearfund

Mae elusen Tearfund yn tynnu ein sylw at y sefyllfa yn y Dwyrain Canol ac am yr angen dybryd sydd yno. Bellach mae 2 filiwn o bobl wedi ei dadleoli ac yn wynebu newyn a diffyg maeth. Gellir cael llawer mwy o fanylion ac awgrymiadau sut i weithredu ar y wefan. Y mae Esgobaeth Anglicanaidd Jerwsalem sy'n cynnwys Gaza a'r Llain Orllewinol yn gofyn i ni weddïo:

1. Ar i'r trais ddod i ben nawr ac y bydd yr Arglwydd yn amddiffyn y rhai hynny sydd mewn perygl.
2. Y bydd yr Arglwydd yn nerthu'r gweithwyr a'r gwirfoddolwyr sy'n cyflenwi gwasanaethau hanfodol i'r rhai anghenus.
3. Am gysur i'r rhai hynny sydd wedi colli anwyliaid yn y gwrthdaro.

Gweddïwch yn ddi-baid.



# Papur Priordy'n cofio R. J. DERFEL 1824–1905

Cafodd Robert Jones (ei enw gwreiddiol) ei eni 24 Gorffennaf 1824, sef dau gan mlynedd yn ôl i'r mis hwn, yn Y Foty, Llandderfel, Meirionnydd. Wedi treulio cyfnod yn chwilio am waith a chrwydro tipyn, ymgartrefodd ym Manceinion. Dyma pryd y mabwysiadodd y cyfenw 'Derfel'.

Cafodd swydd fel trafaeliwr masnachol ym Manceinion a gogledd Cymru. Roedd yn bregethwr gyda'r Bedyddwyr ond mae'n debyg iddo golli'i ffydd i raddau helaeth tua 1865, gan ddod dan ddylanwad gwleidyddol Robert Owen o'r Drenewydd a'i syniadau cydweithredol a chymdeithasol ac yn ddiweddarach feddylwyr sosialaidd a seciwlar.



### Bardd a gwladgarwr

Roedd yn fardd ac ysgrifennodd a chyhoeddodd lawer. Yn Gymro gwladgarol, roedd yr iaith Gymraeg yn bwysig iawn iddo. Roedd yn un o'r rhai cynharaf i ysgrifennu am sosialaeth drwy'r Gymraeg. Fe hefyd fathodd y term 'Brad y Llyfrau Gleision' am yr Adroddiad ar gyflwr addysg yng Nghymru a gomisiynwyd gan senedd San Steffan ac a gyhoeddwyd yn 1847. Agorodd siop lyfrau ym Manceinion (gyda gwasg ynghlwm wrthi) wedi iddo orffen fel trafaeliwr, gan ddarparu'n arbennig ar gyfer y Cymry ond, yn anffodus, ni fu'r fasnach lyfrau'n llwyddiant.

Mae cyfrol *R. J. Derfel Traethodau ac Areithiau* (1864) yn dangos ei sêl wladgarol. Yn y gyfrol hon, er enghraifft, mae'n galw am 'argraffwasg i gyhoeddi llyfrau Cymraeg', dau goleg, un yn y gogledd a'r llall yn y de ble byddai pynciau'n cael eu dysgu trwy'r Gymraeg, llyfrgell ym mhob pentref yng Nghymru, amgueddfa genedlaethol fyddai hefyd yn gweithredu fel llyfrgell genedlaethol, ac 'arsyllfa seryddol ar fryniau Meirionnydd. Roedd yn frwd iawn yn ogystal dros achosion blaengar fel addysg i ferched. Gŵr o flaen ei amser yn sicr!

### Nid oes anrhydedd ...

Daw Andrew Green, cyn lyfrgellydd y Llyfrgell Genedlaethol, i'r casgliad mewn erthygl amdano yn 2022 nad yw 'wedi derbyn digon o glod am ei ymrwymiad i Gymru ac i'r iaith Gymraeg, neu am ei ddyfeisgarwch cymdeithasol, yn arbennig fel ysgogydd o sefydliadau cenedlaethol fel llyfrgelloedd'. Mae'n ychwanegu ei bod yn 'drueni nad oes bywgraffiad modern ohono' gan ei fod yn haeddu cael ei gofio. Bu farw 17 Rhagfyr 1905 ym Manceinion ble treuliodd weddill ei oes ar ôl symud yno.

Mae gan R. J. Derfel dri emyn yn *Caneuon Ffydd* (206, 234, 809). Mae'n siŵr bod ei emynau yn adlewyrchu dyhead pob un ohonom y dyddiau hyn. 'Fel dyddiau'r nefoedd ar y ddaear' oedd teitl emyn 234 yn y *Caniedydd Cynulleidfaol* ble cafodd ei gyhoeddi am y tro cyntaf.

Llefara, Iôr, nes clywo pawb
dy awdurdodol lais,
a dyro iddynt ras i wneud
yn ôl dy ddwyfol gais.

Goresgyn, â galluoedd glân
dy deyrnas fawr dy hun,
bob gallu a dylanwad drwg
sydd yn anrheithio dyn.

Teyrnasa dros ein daear oll,
myn gael pob gwlad i drefn:
O adfer dy ddihalog lun
ar deulu dyn drachefn.

Gwna'n daear oll fel Eden gynt,
yn nefoedd fach i ni,
a bydded, tra bo'n ddaear mwy,
yn sanctaidd deml i ti.

**(allan o *Papur Priordy*, Gorffennaf/Awst 2024)**

Yr Adran Gydenwadol

MEDI 5 2024 RHIF 184

O'R BYD A'R BETWS

# Cyfryngau cyfathrebu?

Yn ystod fy ngwyliau eleni gyda'r teulu ar Ynys Menorca, aethom i ymweld ag El Tora, mynydd uchaf yr ynys, ac arno roedd lleiandy sylweddol. Roedd darn gwreiddiol yr adeilad yn dyddio 'nôl i'r 13g ac wrth ei ochr safai mast anferthol i drosglwyddo negeseuon ffonau symudol a gwasanaeth teledu, mae'n siŵr. Roedd y naill fel y llall yn cyfathrebu gwybodaeth a gwasanaethau ledled yr ynys, a hawlir bod yr ynys gyfan yn gweld y mynydd ac felly ei fod yn lleoliad ardderchog i ddibenion y cyfathrebwyr oll.



Prin bod mynyddoedd yn lleoliadau hwylus i adeiladu tŷ cwrdd yn ein cyfnod ni. O ganol y 19g ymlaen, gyda phoblogaeth cefn gwlad ar gynnydd a'r diwygiadau ar garlam, gwelwyd cyfanswm aelodaeth eglwysi anghydffurfiol yng Nghymru ar ei fan uchaf. Roedd codi tai cwrdd yn digwydd mewn gwlad a thref. Dechreuodd y diwydiant glo ddenu gweithwyr o bob rhan o Gymru, yn arbennig o'r ardaloedd gwledig a ddioddefodd lawer o dlodi yn y cyfnod hwnnw. Wrth adael Dyfed a Gwynedd, byddent yn dod â'u harferion crefyddol gyda hwy ac yn adeiladu capeli ar gyfer yr eglwysi o enwadau amrywiol, a'r rheini yn eglwysi Cymraeg eu hiaith.

Yn ystod fy nghyfnod i yn y weinidogaeth, caewyd yn agos i 85% o'r capeli hynny, ond buont yn allweddol i ddiogelu'r iaith Gymraeg rhwng 1870 ac 1960 yn y cymoedd hyn, y ddwy Rhondda, Cynon, Taf, a Rhymni. Sefydlwyd yr ysgolion cyfrwng Cymraeg wrth i'r eglwysi edwino, ac er mai Saesneg yw cyfrwng ieithyddol y gymdeithas gynhenid, maent yn aeddfed i genhadaeth addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Dangosodd Eisteddfod Genedlaethol Rhondda, Cynon, Taf fod yr awch i hyrwyddo'r Gymraeg, ei dysgu a'i harfer ar gynnydd yn y broydd difreintiedig hyn.



Cam arall yw deffro'r trigolion i berthnasedd Efengyl Iesu i'w bywydau hwy. Y cwestiwn y carwn ei ofyn i ddarllenwyr *Cenn@d* yw pa fath o gyfathrebu ieithyddol a chymdeithasol sy'n amlwg 'o ben y mynydd'. Os mai'r trosglwyddo digidol, Americanaidd / Seisnig, sy'n nodweddu'r cyfan, bydd yr ifanc yn tiwnio i mewn i operâu sebon digidol, disylwedd ag idiomau Americanaidd. Er mor hwylus yw'r ffonau symudol â'r sianeli amheus sy'n denu'r ifanc, maent hefyd yn gyfrwng creu llanast moesol a chymdeithasol.

Un o ddigwyddiadau ysgytwol mis Awst yn Lloegr oedd yr ymosodiad ar ferched ifanc mewn dosbarth dawnsio. Digwyddiad erchyll heb os, ac ni wyddom beth gymhellodd y gŵr ifanc hwn i ddefnyddio'i gyllell i gyflawni'r fath anfadwaith. Lledwyd stori anghywir am y dyn ymhlith sawl carfan 'asgell dde' wleidyddol (yn ôl y Prif Weinidog). Datblygodd sefyllfaoedd terfysgol yn sydyn iawn mewn sawl man yn sgil hyn. Hawlir bod y terfysgwyr yn medru cysylltu â'i gilydd yn hawdd drwy'r cyfryngau digidol. Perygl yn wir.

Mae'r lleiandy ar fynydd El Tora yn dal i gyfathrebu neges sylfaenol a pherthnasol i drigolion ac ymwelwyr yr ynys hyfryd hon. Mae'n cyfathrebu gras a thrugaredd, heddwch a maddeuant, gobaith a chariad i fyd creulondeb a thrais, y byd sy'n ddi-hid i unigrwydd a thlodi, i fyd anobaith ac anghyfiawnder, gan gyfathrebu cariad Duw yn Iesu Grist i fyd hunanol a threisgar. (Ioan 3:16)

*Denzil John*

S4C

***Dechrau Canu, Dechrau Canmol***

**Sul, 8 Medi – Eisteddfod Wrecsam**

Nia Roberts sy'n agor cyfres newydd yn Wrecsam, bro Eisteddfod Genedlaethol 2025. Daw'r canu mawl o Gymanfa Gyhoeddi'r Brifwyl yng Nghapel Bethlehem, Rhosllannerchrugog. Ymhlith y gwesteion fydd yr Archdderwydd newydd Mererid Hopwood a Chadeirydd y Pwyllgor Gwaith, Llinos Roberts. A chawn fwynhau perfformiadau gan Gôr Ni a John's Boys.

BBC radio cymru

***Caniadaeth y Cysegr***

**Sul, 8 Medi, am 7:30yb a 4:30yp**

Amrywiaeth o emynau yng nghwmni'r gantores opera Siân Meinir

***Oedfa Radio Cymru***

**Sul, 8 Medi, am 12:00yp**

Oedfa dan ofal Shan Mayor, Llanfyllin

# *Poems from the Soul: Twelve of the Great Hymns of Wales*, M. Wynn Thomas

Yn gynharach eleni daeth rhodd annisgwyl drwy'r post, sef llyfr newydd M. Wynn Thomas, *Poems from the Soul – Twelve of the Great Hymns of Wales*. Mae'n ysbrydoliaeth yn wir, ac rwyf wedi dychwelyd ato dro ar ôl tro yn ystod y misoedd diwethaf hyn.


Yn y gyfrol hon mae Thomas wedi cyfieithu i'r Saesneg ddeuddeg emyn Cymraeg adnabyddus a'u gosod ochr yn ochr â'r gwreiddiol. Mae yma ragymadrodd craff a phwrpasol, a nodiadau ar bob emyn ynghyd â'u tonau. Yn ogystal, mae darluniau trawiadol Ruth Jên Evans trwy'r llyfr yn goleuo sylwadau'r awdur ac yn gymorth i fyfyrio drostynt.

Yn ei ragymadrodd cyfeiria Thomas at hoffter annisgwyl y nofelydd D. H. Lawrence o emynau. Magwyd Lawrence yn y traddodiad ymneilltuol Saesneg a chofiai ganu emynau yn y capel pan oedd yn blentyn: capel a oedd, meddai, 'yn uchel ac yn llawn goleuni ac yn llonydd'.

Pwyslais Thomas yw fod emynau enwocaf Cymru yn drysordai o brofiad ysbrydol oes sydd wedi hen ddiflannu. Maent yn adlewyrchu nodweddion gorau diwylliant y capeli Cymraeg ac yn rhoi llais i brofiadau sydd o hyd yn berthnasol am eu bod yn codi o anghenion oesol. Ynddynt rydym yn canfod y llawenydd a'r gofidiau sy'n rhan o brofiad pawb ohonom, profiadau sy'n ein clymu'n un ddynoliaeth gyffredin.

Mae'n nodi fod gwedd gymdeithasol yn ogystal â gwedd bersonol i emynyddiaeth Cymru. Cawn ein hatgoffa, er enghraifft, o ddioddefaint ac ofn dychrynllyd milwyr yn y ffosydd yn ystod y Rhyfel Mawr, a'r modd y cawsant gysur a nerth wrth ganu emynau. Yma yn Llundain mae yna bobl sy'n dal i gofio arfer y Cymry o ddod at ei gilydd mewn profedigaeth i ganu emynau eu mamwlad yng ngorsafoedd Euston a Paddington wrth iddynt ffarwelio â'u hanwyliaid ar eu taith olaf yn ôl i Gymru.

Fel un sy'n dal ati i ddysgu'r iaith, mae *Poems from the Soul* wedi cynnig cyfle o'r newydd i mi i ddyfnhau fy nealltwriaeth a'm gwerthfawrogiad o emynau Cymraeg. Yn aml maent wedi cael eu cyfansoddi gan werinwyr yn hytrach nag enwogion, ac ynddynt fe gawn drysor gwerthfawr.




Mae Thomas ei hun yn cyffesu bod yr emynau hyn wedi dod â rhyfeddod i'w fywyd, ac ni allwn lai na chytuno ag ef oherwydd gall yr emynau hyn gyffwrdd â'n calonnau, ein meddyliau a'n heneidiau ninnau hefyd.

*Richard Brunt*
*Llundain*

(***Poems from the Soul: Twelve of the Great Hymns of Wales*, M. Wynn Thomas. Calon, 2024; pris £12.99**)

# Deall y Beibl yn Well

Dros fisoedd y gaeaf (2023/24) fe gynhaliodd Cristnogaeth21 bedair sgwrs rithiol dros Zoom dan y pennawd 'Deall y Beibl yn Well'.

Bwriad y sesiynau oedd cynnig cyfleoedd, dan arweiniad dau o'r academyddion Beiblaidd Cymraeg praffaf, i gael gwell dealltwriaeth ar agweddau o'r Ysgrythurau.

Cafwyd dwy sesiwn gan yr Athro Eryl Wynn Davies, a draddododd gyflwyniad i'r Ysgrythurau Hebraeg (yr Hen Destament). Traddododd yr Athro Catrin Haf Williams ddwy sgwrs ar y Testament Newydd: un ar agweddau'r Testament Newydd at Iddewiaeth ac un ar agweddau'r Testament Newydd at fenywod. Bu derbyniad da iawn i'r sgyrsiau, gyda nifer yn holi am gyfle i'w dilyn eto.

Rydym yn falch o gyhoeddi bod y cyflwyniadau hyn bellach i'w gweld ar-lein ar ein sianel YouTube, Cristnogaeth 21 Cymru.

Maen nhw o ddiddordeb i unigolion sy'n ymddiddori mewn beirniadaeth Feiblaidd. Mae'n bosib eu defnyddio hefyd fel adnodd ar gyfer trafodaethau grŵp. Mwynhewch y sgyrsiau. Edrychwn ymlaen at ychwanegu at ein deunydd gweledol ar ein sianel YouTube yn fuan.

*Cristnogaeth 21*
*www.cristnogaeth21.cymru*

EGLWYS BRESBYTERAIDD CYMRU

**Gofalaeth y Garn, Gogledd Ceredigion**

Yn sgil ymddeoliad y gweinidog presennol ddiwedd Awst 2024, mae eglwysi'r ofalaeth uchod yn awyddus i alw gweinidog.

Gwahoddir gweinidogion ordeiniedig neu rai dan hyfforddiant i gysylltu am ragor o fanylion drwy gysylltu â Marian Beech Hughes: marian_hughes@btinternet.com; 01970 828662

erbyn 30 Medi 2024

# Cofio Epynt ar Ddiwrnod Heddwch Rhyngwladol

Mae Cymdeithas y Cymod law yn llaw gyda Heddwch ar Waith yn eich gwahodd i Fynydd Epynt i nodi Diwrnod Heddwch Rhyngwladol 2024.

Byddwn yn ymgynnull am 2 o'r gloch, dydd Sadwrn, 21 Medi, wrth Ganolfan Ymwelwyr Llwybr yr Epynt (LD3 9RG – rhwng Capel Uchaf a Llangamarch).

Ein bwriad yw codi ymwybyddiaeth o hanes Epynt a'r ffaith fod y fyddin yn dal ar dir Mynydd Epynt, 84 mlynedd yn ddiweddarach. Byddwn yn galw ar y Weinyddiaeth Amddiffyn i ddychwelyd y tir i bobl yr ardal.

Gair gan Gadeirydd Cymdeithas y Cymod, Robat Idris:

> 21ain Medi yw Diwrnod Heddwch Rhyngwladol. Priodol iawn i ni yng Nghymdeithas y Cymod felly yw mynd i'r Epynt, ardal eang o dir a fu'n eiddo i'r Cymry ers cyn cof. Ym 1940 trowyd dros 219 o bobl a phlant o 54 o aelwydydd gan y Llywodraeth er mwyn creu maes i ymarfer rhyfela. Erys y mynydd-dir hwn yn nwylo'r Weinyddiaeth Amddiffyn i'r un pwrpas hyd y dydd heddiw. Gyda chymaint o ryfela a sôn am ryfela heddiw, rhaid i ni geisio cymod a heddwch. Credwn ei bod yn hen bryd i'r tir hwn a rwygwyd o afael y trigolion gael ei ddychwelyd i bobl Cymru, fel bod y tir yn cael ei adfer i ddefnydd heddychlon. Y digwyddiad hwn ar Epynt yw'r cyntaf o gyfres o ddigwyddiadau yn arwain at 30 Mehefin 2025, sef pen-blwydd y Troi Allan.

Byddwn yn cynnal cyfarfod byr i gyhoeddi nod ein digwyddiad ac wedyn yn gofyn i bawb ffurfio rhes hir ar y rhiw y tu ôl i'r Ganolfan Ymwelwyr yn dal baneri a phlacardiau, a sefyll yn dawel am gyfnod o 10 munud. Y bwriad wedyn yw clymu'r placardiau ar y ffens sy'n amgylchynu'r Ganolfan Ymwelwyr, a'u gadael yno i atgoffa ymwelwyr eraill am yr hanes.

Mae Llwybr yr Epynt yn llwybr cyhoeddus o amgylch y maes milwrol (taith o 65km i gyd). Nid oes angen caniatâd arbennig i gerdded y llwybr, ac ar ddiwedd ein tystiolaeth bydd croeso i chi gerdded rhan o'r llwybr, taith gylch o ryw awr a hanner: https://www.epyntway.org/.

Os oes gennych ddiddordeb mewn ymuno â ni ar y diwrnod hwn, a wnewch chi ebostio: epynt2025@gmail.com er mwyn i ni rannu mwy o wybodaeth am y trefniadau. Rydym yn annog pobl i rannu ceir, felly ebostiwch os ydych yn chwilio am lifft neu'n gallu cynnig lifft, neu os ydych yn fodlon gwirfoddoli fel stiward parcio.

Diolch!

*Robat Idris (Cadeirydd)*
*Siân Evans (Cydlynydd)*
*Catrin Atkins (Ysgrifennydd)*

# Cofio Lewis Young-Hayden (1912–89), un o bregethwyr grymusaf y Bedyddwyr Cymraeg yn yr ugeinfed ganrif

Ganwyd y pregethwr ysgubol hwn ar 8 Gorffennaf 1912 yng Nghaerau, ger Maesteg, yn ail fab i Elisabeth a William Hayden. Collodd ei fam yn ei blentyndod, a chymerodd ei fam-gu Eunice Young, mam y brodyr enwog o bregethwyr: Jabes, Glasnant, Jubilee ac Owen, ef a'i frawd Tom i'w chartref yn Aberafan, Morgannwg. Derbyniodd ei addysg yn Aberafan. Ar ôl dyddiau ei fam-gu bu'n gyfnod hynod o anodd arno hyd nes i'w ewythr, y Parch. Glasnant Young, a'i briod ofalu amdano yn eu cartref yng Nghwm-twrch. Yn bymtheg oed cafodd waith yn y gwaith tun. Daeth i adnabod to o fechgyn oedd wedi eu llwyr gyfareddu gan weinidogaeth ei ewythr, bechgyn a elwir yn 'gywion Glasnant', sef Rufus Roberts a'r tri brawd: John Glyndwr Davies, Felin-foel; Gerson Davies, Tonpentre; ac Alun J. Davies, Calfaria, Aberdâr. Daeth pob un ohonynt yn weinidogion yn yr enwad.

Pan symudodd y Parch. Glasnant Young o Gwm-twrch i weinidogaethu yn Llanymddyfri, arhosodd y nai yn ei waith, gan letya gyda theulu llengar amlwg yn y cylch, teulu Daniel Jones. Bu ef yn gefnogwr di-ail iddo, gan ei gymell i ddefnyddio'i ddoniau yn gyhoeddus o fewn byd y capel. Aeddfedodd Young-Hayden fel siaradwr a gweddïwr cyhoeddus. Teimlodd alwad i ddilyn ei ewythredd i'r 'barchus, arswydus swydd', a gadawodd y gwaith tun am Ysgol Myrddin yng Nghaerfyrddin. Yn ddiymdroi, daeth yn atyniad fel pregethwr gan ei fod erbyn hyn yn meddu ar yr 'hwyl' Cymreig. Enillodd le i astudio ymhellach yng Ngholeg y Bedyddwyr, Caerdydd, ond ni dderbyniodd y cynnig gan iddo gael ei ddenu i ogledd Penfro, i ofalu ar ôl Capel Bethabara, a hynny yn 1937. Yn y cyfarfod sefydlu ac ordeinio gwelid y pedwar ewythr enwog yn bresennol.

Dyma ddechrau pennod arall yn hanes y pregethu dathliadol ym mhulpudau'r Bedyddwyr Cymraeg. Daeth enw Young-Hayden yn enw cyfarwydd ym mhob rhan o'r enwad. Gwahoddid ef yn gyson i bregethu yng nghymanfaoedd a chyrddau pregethu ei enwad ac edrychwn ymlaen i'w glywed yn nyddiau fy ngweinidogaeth yng Nghwm Cynon. Cysegrodd ei holl fywyd i bregethu teithiol. O'i ganolfan yng ngogledd Penfro, meddyliai am bregethu o fore tan nos. Dyna oedd ei sgwrs ar yr aelwydydd ledled y wlad pan ddeuai i aros dros yr ŵyl bregethu. Canolbwyntiodd ar bregethu drwy gyfrwng y Gymraeg. Priododd â Myfanwy Rees, Llanymddyfri, ym mlwyddyn ei ordeinio, ond bu hi farw'n ifanc, ac ailbriododd â Glenys Evans o'r Hendy, ger Pontardawe.

Yn ddiweddarach, bu'n gweinidogaethu yn y Felinganol o fewn Cymanfa Penfro ac yna, er cryn syndod i'w gyfeillion, symudodd i ardal ac eglwys oedd yn brwydro i gynnal y dystiolaeth yn Gymraeg, sef Noddfa, Treorci. Sylwodd aml un nad oedd ei gyffelybiaethau o fyd cefn gwlad yn taro deuddeg yng nghymoedd glo Morgannwg. Derbyniodd alwad o Dreorci i eglwysi'r Bedyddwyr ym Mhencader a Rhydargaeau, sir Gaerfyrddin. Bu farw ar 7 Gorffennaf 1989 ac ymysg y gweinidogion a wasanaethodd yn ei arwyl yr oedd y Parch. John Young, Llandeilo, cefnder iddo ac un arall yn llinach hil adnabyddus teulu Eunice Young, Aberafan.

**Ffynhonnell**
*Llawlyfr Undeb Bedyddwyr Cymru* 1990, tt. 83–5; adnabyddiaeth bersonol, yn arbennig yn ystod ei gyfnod yng Nghwm Rhondda.

*D. Ben Rees*

# Parchedig T. Howell Mudd (1941–2024)

*Dyma ail ran y deyrnged hon gan Guto Llywelyn.*



Yn y pulpud byddai pawb â'u sylw wedi ei hoelio arno ef. A phan fyddai yn ymweld â chaffi'r farchnad yng Nghaerfyrddin byddai yna dyrfa fawr yn casglu o'i gwmpas i wrando arno. Ac yna byddai mwy o bobl yn dod i weld beth oedd yn mynd ymlaen ac yno fydden nhw'n gweld Mr Mudd yn y canol. Roedd yna ryw drydan ynddo fe a fyddai'n denu pobl ato. A byddai pawb oedd yn ymweld ag ef yn teimlo yn well ar ôl bod yn ei gwmni. Ar ôl sgwrs gyda Howell byddech yn barod i fynd mas i wynebu y byd unwaith eto. Roedd yn llawn o storiâu a rheini'n storiâu chwedlonol. Un o ddoniau rhyfeddol Howell oedd ei ddawn i gofio straeon ei orffennol. Ac roedd yna un rheswm mawr am hynny. A hynny oedd yr amhariad ar ei lygaid, a'r rheidrwydd oedd arno, yn enwedig yn gynnar yn ei oes, i ddibynnu ar ei gof.

### Hiwmor

'Doniolwch sidan' oedd ganddo. Doedd neb yn well am ddoniolwch a hiwmor nag ef. Roedd rhan helaeth o'r storiâu'n rhai llawn hiwmor. Ac yn y storiâu byddai'n chwerthin ar ben ei hunan ac nid ar ben neb arall. Roedd ganddo ddawn arbennig i feddwl am yr union beth i ddweud beth bynnag oedd y sefyllfa a phwy bynnag fyddai yn ei gwmni. Ac os byddai rhywun yn dweud rhywbeth bach yn gecrus wrtho, roedd ganddo'r ddawn i ateb yn syth ac ennill y dydd.

Ychydig ar ôl iddo ymddeol fel gweinidog i edrych ar ôl Mary dyma ddyn yn dod lan ato ac yn dweud wrtho'n feirniadol, 'Clywed bod chi wedi gadael y weinidogaeth Mr Mudd.' Dyma Howell yn ateb yn syth, 'Dim o gwbl, rwy wedi newid fy ngweinidogaeth.'

### Bugail gofalus

'Ŵr hoff' medd yr englyn ac mae'n anodd meddwl am unrhyw weinidog yng Nghymru oedd a lle mwy annwyl yng nghalonnau ei aelodau nag ef. Ym mhob man y bu'n weinidog roedd yna le arbennig iddo ymhlith y teuluoedd y buodd yn eu bugeilio. Treuliodd gannoedd a channoedd o oriau yn bugeilio ei bobl ac roedd parch anferthol ato am hyn. Bu'n rhaid iddo dorri newyddion ofnadwy o drist i deuluoedd llawer gwaith. Fe fugeiliodd bobl yn enwedig yn eu galar. Dywed un wraig wrthyf bob tro y byddaf yn ei gweld, pa mor dda bu Howell iddyn nhw yn dilyn trasiedi enfawr. Ac wrth fugeilio roedd Howell yn hollol ddidwyll a dyna pam roedd pawb mor hoff ohono. Roedd yn bugeilio ar fore Nadolig hyd yn oed, yn mynd heibio'r cartrefi preswyl i weld yr aelodau cyn mynd adref am ei ginio Nadolig. Ac roedd yr un parch tuag at Mary hefyd ymhlith yr aelodau i gyd a hithau'r un mor barchus â'i gŵr ym mhob man y buont yn gwasanaethu.

### Cymro

Roedd hefyd yn Gymro i'r carn ac roedd ei Gymreictod a'r iaith Gymraeg yn holl bwysig iddo drwy ei oes. Mae llawer ohonoch wedi cyfeirio'r dyddiau diwethaf at ffyddlondeb Howell i'w deulu ac i'w gyfeillion. Fe wnaeth ei nai, Mark, sôn am ei ffyddlondeb i'r teulu ar hyd y degawdau ac fel yr oedd bob amser yno i helpu, yn enwedig pan oedd yr angen fwyaf. A gwerthfawrogai ef gefnogaeth ei deulu iddo dros y blynyddoedd yn enwedig Mark, Liz, Aled. Gyda'ch help chi, fe fu y blynyddoedd diwethaf hyn, yn Rhydaman a Chaerfyrddin, yn rhai hapus iddo.

### Cyd-weinidogion

Mae nifer o'r gweinidogion hefyd wedi cyfeirio at ei ffyddlondeb atynt, yn mynd 'nôl at ddyddiau'r coleg diwinyddol yn Abertawe yn y chwedegau. Rydym fel gweinidogion y de orllewin yn cwrdd yn fisol yng Nghaffi Beca yn Efailwen ac roedd Howell wrth ei fodd yn y cyfarfodydd hyn. Ef oedd ein cadeirydd rhai blynyddoedd yn ôl ac fel hyn y dywedodd ychydig cyn y Nadolig pan fu'n gadeirydd. 'Bydd y cinio Nadolig mis nesaf ac mae hawl gyda chi ddod a'ch gwraig gyda chi. Felly dewch a'ch gwraig gyda chi. Ac os oes dwy wraig gyda chi, dewch a'r ddwy!'

### Galwad sicr

Soniwyd yn gynt am ffyddlondeb Howell. A bu'n ffyddlon i Dduw ac i Iesu Grist trwy gydol ei oes. Pan ddywedodd ei fod yn mynd yn weinidog fe geisiodd llawer ei berswadio i aros yn Sain Ffagan. Fel y dywed yn yn ei hunan gofiant, roedd cyflog y weinidogaeth Gristnogol yr adeg honno yn hanner beth oedd cyflog gweithiwr yn Sain Ffagan. Ond roedd yn benderfynol o fynd i'r weinidogaeth gan 'ymateb i alwad'. A dywed fel hyn yn y llyfr. 'Mae amryw wedi gofyn i mi, pam dewis mynd i fewn i'r weinidogaeth. Nid fi ddewisodd, ond cael fy newis wnes i gan Un a oedd yn llawer mwy na fi ac a fu gyda mi drwy holl dreialon bywyd.'

Rwy'n cofio galw gydag ef ychydig yn ôl pan roedd y newyddion i gyd am y teulu brenhinol. A dyma Howell yn troi ataf gan ddweud, 'Ti'n gweld, dim ond un brenin sydd gyda fi.' Duw oedd yr unig frenin iddo ef ac nid oedd iddo 'offeiriad, ond Iesu Grist ei hun.'

Diolch i Dduw am ei fywyd a'i waith a boed Duw yn gysur i bawb sydd yn galaru amdano.

## Cadw Dyddiadau

Byddwch yn cofio i'r pandemig effeithio'n drwm ar weithgarwch y Gymdeithas ac i'r gynhadledd oedd i'w chynnal yn Boston, UDA i ddathlu 400 mlwyddiant glaniad y tadau pererin yn 1620 gael ei chanslo.

Ymunodd amryw yn y gynhadledd undydd, rithiol a gynhaliwyd yn 2021 gan werthfawrogi'r arlwy gyfoethog o gyflwyniadau a gafwyd. Pellter y daith i Fiji, yn anad un dim arall, a gadwodd yr Annibynwyr o Gymru o gynhadledd 2023.

Bellach, y mae'n llawenydd datgan bod cynhadledd yn cael ei threfnu ar gyfer 2025, i'w chynnal yn Thesaloniki yng ngwlad Groeg ar 22–26 Mai. Cost y gynhadledd fydd oddeutu $1350 heb gynnwys costau teithio.

Disgwyliwn yn eiddgar am fanylion pellach.

International Congregational Fellowship

# Barn Annibynnol

## Sol-ffa Sno-good

Wel! Fe wnes i fwynhau cymanfa ganu'r Eisteddfod Genedlaethol eleni. Os ydych chi'n fy nabod, bydd hynny'n syndod achos rwy'n eithaf llafar am fy 'alergedd' i gymanfaoedd canu. Rwy'n dioddef o'r aflwydd hwn ers blynyddoedd lawer. Efallai bod y llun isod yn esbonio rhywfaint arno ...



Plentyn 5 neu 6 oed mewn ffrog orau, het a menig ar brynhawn braf – meddyliwch! Rwy'n credu 'mod i'n gweld watsh. Os felly, yn Alltwalis roedd y gymanfa y flwyddyn honno – gyda cherddorfa yn y sêt fawr! Treuliais y gymanfa gyfan bron yn edrych ar fy watsh newydd, yn dymuno i'r bysedd symud yn gynt.

Flwyddyn arall, galwodd fy mam arnaf, 'Dere i frwsho dy ddannedd i fynd i'r gymanfa,' a minnau'n sgyrnygu 'Pam? Sai'n mynd i wenu ar neb.' A wnes i ddim chwaith, meddai hi. Dro arall wedyn, ro'n i wedi cael sgidiau patent coch o'r enw Jodies ar gyfer y gymanfa. Roeddwn mor ddigalon fel mai'r unig beth oedd fy nghadw rhag llefen oedd edrych ar y Jodies.




### Artaith

Roedd y paratoadau at y diwrnod mawr yn fwrn arnaf hefyd. Roedden ni yn ysgol Sul y Tabernacl, Pencader, yn ymarfer at y gymanfa am wythnosau os nad misoedd. Cyd-ddarllen emyn i ddechrau – ro'n i'n dod i ben â hynny – ond wedyn clywn y geiriau oedd yn gwneud i 'nghalon suddo, 'Solffeiwn ni hi.' Doedd sol-ffa'n golygu dim oll i mi. Hyd y cofiaf i, doedden ni ddim yn dysgu sol-ffa. Efallai ein bod i fod i'w ddeall yn reddfol – doeddwn *i* ddim! Ac os oedd canu'r emynau'n boenus, roedd dysgu'r Salm a'r anthem yn arteithiol.

### Traw, traw ... yn Tsieina

Doedd y ffaith na allwn ganu o ddim help. Daeth rhywun i'r ysgol Sul i helpu â'r canu pan oeddwn dipyn hŷn a fy ffrind Morfudd yn esbonio wrthi, 'Mae Sharon yn canu soprano, fi'n canu alto a Siân yn canu rhywbeth arall.' Ysgydwodd y fenyw ei phen ar ôl clywed fy ymdrechion a dweud yn drist, 'Ond roedd yr Enochs i gyd yn gallu canu.' Sori am beidio ag etifeddu'r genynnau iawn!

Roedd rhai o fy ffrindiau wrth eu bodd â'r holl balafa cymanfaol – ysgol gân ar ôl capel nos, rihyrsals mewn llefydd ag enwau rhamantus fel Llidiad Nennog a Gwernogle, rihyrsal fawr gydag arweinydd y gymanfa, te yn y festri rhwng cymanfa'r plant a chymanfa'r oedolion. Cefais i fy arbed rhag y rhain i gyd, diolch am hynny!

### O ddrwg i waeth

Fuodd fy mywyd yn ddi-gymanfa am flynyddoedd wedyn, tan i mi briodi, symud i Drefor ac ymaelodi yn eglwys Maesyneuadd. Yn yr ardal hon, ar y pryd, roedd gan yr Annibynwyr DDWY gymanfa ganu – y Gymanfa Fach (cylch Pwllheli i ni) a'r Gymanfa Fawr (Llŷn ac Eifionydd). Unwaith neu ddwy y bues i yn y cymanfaoedd oedolion ond bu'n rhaid mynd i'r sesiynau plant pan ddaeth plant ni yn y 90au. Dw i'n cofio teimlo 'mod i mewn rhyw fath o *time warp* – dyn mewn siwt yn chwifio baton a phlant mewn dillad gorau nid annhebyg i'r 60au – heb yr het a'r menig!

### Addasu

Ymhen amser, yn lle'r Gymanfa Fach dechreuwyd mynd â'r plant ar ymweliad â rhywle difyr a gwahodd rhywun i roi sgwrs ac, efallai, gân neu ddwy. Bu'r oedolion yn cael pregeth/anerchiad gyda thrafodaeth a phaned. Fe weithiodd hyn yn dda am rai blynyddoedd.

Rhaid dweud, rwy'n mwynhau emynau mewn oedfa arferol, wedi'u dewis i gyd-fynd â'r bregeth, hyd yn oed os yw'r canu braidd yn aflafar. 'Sefydliad' y gymanfa sy'n codi'r felan arna i – ac mae *Caniadaeth y Cysegr* a *DCDC* yn cael effaith debyg.

Penderfynais fentro i gymanfa Eisteddfod Boduan. Gwaetha'r modd, er bod llefydd i gadeiriau olwyn yn y pafiliwn a ddarparwyd, roedd step i'w cyrraedd! Bu'n rhaid i mi eistedd yn yr ale ymhell oddi wrth fy ffrindiau. Doedd hynny'n ddim help i mi ymlacio a mwynhau!

### Cymanfa Pontypridd

Yna daeth Steddfod 2024. Un o Drefor yw'r arweinydd, Wil Morus Jones, ac roedd cyfyrderes i'r gŵr a'i merch yn canu yn y côr – teulu a symudodd i'r Sowth a cholli'r Gymraeg am ddwy genhedlaeth cyn ei hadfer yn y ddwy genhedlaeth ddiweddaraf. Felly roedd rhaid mynd!

Ro'n i'n teimlo awyrgylch cyffrous a chynnes. Roedd yn braf bod yng nghanol ymchwydd canu'r gynulleidfa ac roedd datganiad y côr o 'Teyrnasoedd y Ddaear' yn wefreiddiol. Ro'n i hyd yn oed yn mwynhau clindarddach y seti wrth i'r gynulleidfa godi! Roedd bod yno yn brofiad dyrchafol ond, i mi, yn brofiad diwylliannol yn fwy nag ysbrydol.

Allwch chi ddisgwyl fy ngweld mewn cymanfa eto yn fuan? Go brin ond rwy'n falch i mi fynd i'r gymanfa ym Mhontypridd.

**Siân Roberts**

(Nid yw cynnwys y Barn Annibynnol o reidrwydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynwyr na'r tîm golygyddol.)

Arloesi a Buddsoddi
Rhaglen Undeb yr Annibynwyr Cymraeg

Dyma gyfle i'r eglwysi gael nawdd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg i fuddsoddi yn eu dyfodol drwy fentro mewn ffyrdd newydd ac arloesol o hyrwyddo a chyhoeddi'r Efengyl, ac estyn allan i wasanaethu eu cymunedau a'u hardaloedd.

Cynigir symiau sylweddol iawn – hyd at £50,000 dros gyfnod o 5 mlynedd

Cysylltwch â Tŷ John Penri
undeb@annibynwyr.cymru 01792 795888

*Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:*
Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
*Ffôn:* 02920 490582
*E-bost:* tyst@annibynwyr.cymru

*Golygyddion*

Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
*Ffôn:* 01766 513138
*E-bost:* IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
*Ffôn:* 01267 232577 /
0781 751 9039
*E-bost:* alunlenny@hotmail.co.uk

*Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:*
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe
ABERTAWE SA7 0AJ
*Ffôn:* 01792 795888
*E-bost:* undeb@annibynwyr.cymru

*Dalier Sylw!*
Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.

# ARWEINIAD ARWROL

Nid peth rhwydd yw arwain. Daw'n rhwyddach i rai nag eraill. Rhaid dilyn Duw yn gyntaf cyn arwain pobl wedyn. Ceir sawl arweinydd yn y Beibl. Rhai ohonynt yn fwy hyderus nag eraill. Yr esiampl orau wrth gwrs yw'r Arglwydd Iesu Grist.

## Moses

Roedd Moses yn amharod iawn i arwain gan honni na allai siarad yn rhugl. Cynorthwyodd Duw Ef trwy roi Aaron yn lladmerydd iddo. Hefyd rhannodd y gwaith o lywodraethu trwy'i ddirprwyo i eraill. Trwy Ei arweiniad campus hyfforddodd yr Arglwydd Iesu Grist 12 o ddisgyblion mewn gair a gweithred gan roi esiampl wych iddynt i'w dilyn yn eu tro. Daethant hwythau'n arweinwyr yn y man gan ddylanwadu ar genhedlaeth arall o ddilynwyr. Gwahanol iawn oedd cymeriadau'r disgyblion cyntaf ond troesant yn apostolion wedi eu newid gan ras a'u harfogi â doniau.

## Pedr

Un byrbwyll oedd Pedr a drodd Iesu'n graig o arweinydd. Rhai tanllyd oedd Iago ac Ioan a ddofodd Iesu. Ac ymgyrchydd gwleidyddol tanbaid oedd Simon Selot tan i Iesu ei droi'n bregethwr Cristnogol angerddol.

## Paul

Rhoddodd Paul arweiniad i'r eglwys fore trwy ei eiriau a'i weithredoedd. Dywedodd wrth Gristnogion Corinth iddynt fod 'yn efelychwyr ohonof fi, fel yr wyf finnau o Grist.' (1 Corinthiaid 11:1) Nid camddefnyddio pŵer trwy greu *personality cult* oedd ei fwriad ond denu pobl at Iesu. Dywed awdur y llythyr at yr Hebreaid iddynt gofio 'eich arweinwyr ... ac efelychwch eu ffydd.' (Hebreaid 13:7) Mae Paul yn rhestru arweinyddiaeth ymysg y doniau ysbrydol (Rhufeiniaid 12:8). Mae angen darganfod, datblygu a dangos y ddawn honno. Gwelir cymwysterau arweinydd (henuriad/esgob) yn 1 Timotheus 3:1-7. Yn hanfodol i hyn mae ffrwyth yr Ysbryd (Galatiaid 5:22-3). Ynghyd â hyn mae doethineb a gwytnwch. Dywedodd Duw wrth Joshua dair gwaith ar ddechrau'r gwaith o arwain pobl Israel i feddiannu gwlad Canaan iddo fod 'yn gryf a dewr.' (Josua 1:6, 7 a 9)

## Dawn arwain

Mae'r gwaith o arwain yn gofyn am amcanion clir a chyfathrebu agored. Nid yr un peth o reidrwydd yw arwain a llywodraethu neu reoli. Mae angen i'r arweinydd beth bynnag hwyluso newid 'i gymhwyso'r saint i waith gweinidogaeth, i adeiladu corff Crist.' (Effesiaid 4:12) Wrth arwain cyfarfod busnes er enghraifft mae angen i'r arweinydd lynu'n amserol wrth yr agenda a dal yr awenau'n sownd yn ei ddwylo gan dynnu ar y person siaradus a llacio ar y person tawedog. Yn wyneb gwahaniaeth barn mae angen iddo feddwl yn strategol a gweithredu'n dactegol. Yn wir mae angen mwy o oleuni na gwres mewn cyfarfod busnes a mwy o wres na goleuni mewn oedfa o fawl!



Arwain ni drwy bob yfory
sydd ar ôl o hanes byd
nes dychwelo'r gair tragwyddol
i alw teulu Duw ynghyd:
Iesu, Iesu
heddiw, ddoe, yfory'r un.

(Siôn Aled)

**Peter Davies**

Diwrnod i
Arweinwyr Addoliad, Pregethwyr Cynorthwyol, a darpar Bregethwyr Cynorthwyol

Ydych chi'n Arweinydd Addoliad, yn Bregethwr Cynorthwyol, neu yn ystyried cychwyn arwain addoliad, boed hynny yn eich eglwys leol, neu mewn eglwysi eraill?

Os ydych, carem eich gwahodd i ddiwrnod arbennig wedi ei drefnu ar eich cyfer chi.

**Dydd Gwener, 20 Medi 2024**
**10:00 - 3:30 o'r gloch yn Llety'r Parc, Aberystwyth**

Yn ystod y diwrnod, bydd rhai o'r unigolion sydd wedi dilyn y modiwl 'Addoli a Phregethu' yn ddiweddar yn cyflwyno myfyrdod.

Hefyd, bydd cyfle inni ymuno mewn dwy sesiwn arbennig, sef:

'Y Celfyddydau mewn Addoliad - Parchg Owain Llyr Evans
'Addoliad Pob Oed' - Parchg Beti-Wyn James

I gofrestru, cysylltwch â'r Cydlynydd Hyrwyddo Gweinidogaethau:
carwyn@annibynwyr.cymru

Croeso cynnes i bawb



*Trefnir y diwrnod dan nawdd Cynllun Dysgu a Datblygu Undeb yr Annibynwyr Cymraeg*

Gorllewin Morgannwg

# Cymanfa Cyhoeddi

## Eisteddfod Dur a Môr, Parc Margam a'r Fro 2025

Dydd Sul, Medi 29ain 2024
15:00
Eglwys Dewi Sant, Castell-nedd

Arweinydd - D. Huw Rees,
Organydd - Huw Tregelles Williams,
Allweddellau - Aled Maddock,
a cherddorion ifanc yr ardal.

Mynediad trwy raglen am £5.
Ar gael o Dŷ Tawe, Tŷ'r Gwrhyd a Swyddfa'r Urdd
07976 003335

*Cyhoeddwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac argraffwyd gan Serol Print, Uned 13, Ystad Ddiwyd. Heol Milland, Castell-nedd, SA11 1NJ. Cofrestrwyd yn y Swyddfa Bost.*